



Newyddion Diweddaraf

Gwaith adeiladu

Er gwaethaf y tywydd garw diweddar mae gwaith ar Ysgol Hafod Lon Newydd ym Mhenrhyndeudraeth yn symud ymlaen yn dda. Bellach mae rhan helaeth o gwaith waliau allanol yr ysgol wedi ei gwblhau, y tô bron a'i orffen a mae'r gwaith o greu waliau partisiwn mewnol wedi cychwyn.

Mae ffrâm bren i'r Uned breswyl/egwyl fer wedi ei gwblhau, y tô bron wedi ei gwblhau a'r ffenestri a drysau allanol wrthi'n cael eu gosod.

Mae hyn yn newyddion da er mwyn gallu parhau â'r gwaith y tu fewn cyn i'r Gaeaf gyrraedd go iawn.



Llun cyn gorffen y gwaith allanol a to sy'n dangos lleoliad gwych yr ysgol newydd gyda'r Moelwyn yn y cefndir

Gallwch ddilyn y cynnydd ar dudalen Facebook sydd wedi ei greu gan Wynne Construction (<https://www.facebook.com/ysgolhafodlonnewydd>) sy'n cynnwys lluniau a fideo o'r gwaith ar safle.

Buddion cymunedol

Mae cwmni Wynne Construction, sy'n gyfrifol am waith adeiladu'r ysgol newydd, wedi cytuno i geisio cyflawni nifer o fuddion cymunedol gan gynnwys ceisio defnyddio gymaint o weithwyr a cyflenwyr lleol a phosib. Hyd yn hyn mae nhw wedi cyflawni:

- Wythnos o brofiad gwaith i unigolyn 14-16 oed
- Wythnos o brofiad gwaith i unigolyn 16+
- Disgyblion blwyddyn 10 o Ysgolion Y Berwyn, Y Gader ac Y Moelwyn wedi ymweld â'r safle
- 4 prentisiaeth wedi derbyn 17 wythnos o brofiad gwaith ar safle
- Mae myfyrwyr o Goleg Meirion Dwyfor wedi ymweld a'r safle gan dderbyn anwythiad safle a chyflwyniadau contractwr yn y Pwynt Gwybodaeth i Ymwelwyr
- 33% o'r gweithlu ar y safle yn byw o fewn 30 milltir o'r safle
- 37% ychwanegol yn byw yn Gogledd Cymru
- Gwerth 37% o is-gontractau wedi eu rhoi i gontractwyr sydd wedi eu lleoli yng Ngwynedd

- Mae Pwynt Gwybodaeth i Ymwelwyr wedi bod yn agored i'r cyhoedd am un diwrnod y mis ers yr Haf ac, er fod y trefniant yma bellach wedi dod i ben, mi fydd Wynne Construction yn trefnu diwrnodau agored yn y flwyddyn newydd
- Mi fydd Wynne Construction yn parhau i gyflawni buddion cymunedol pellach yn y flwyddyn newydd

Yn ychwanegol i'r buddion uchod mae Wynne Construction hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda Ysgol Hafod Lon a chafwyd ymweliad gan Ivor Goodsite i hybu pwysigrwydd iechyd a diogelwch a bu nifer o'r disgyblion yn ymweld a safle'r ysgol newydd.



Ivor Goodsite yn Ysgol Hafod Lon



Rhai o blant Ysgol Hafod Lon yn ymweld a safle'r ysgol newydd

Staffio'r ysgol

Mi fydd yr ysgol newydd ar gyfer hyd at 100 o ddisgyblion rhwng 3-19 oed gyda anghenion dysgu ychwanegol amrywiol iawn. Mae'r Adran Addysg bellach wedi cwblhau'r gwaith o gytuno strwythur staffio yr ysgol newydd a mi fydd yn cael ei gyflwyno i Gorff Llywodraethol Ysgol Hafod Lon i'w gymeradwyo yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Yn dilyn hyn mi fydd y Gwasanaeth Ymgynghori Adnoddau Dynol yn cynnal cyfarfodydd gyda staff presennol Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran i rannu'r strwythur staffio ac ateb unrhyw gwestiynau.

Yn y cyfamser, mae croeso i unrhyw aelod o staff gysylltu'n uniongyrchol gyda **Meleri Hughes, Swyddog Adnoddau Dynol** ar **01286 679915** (MeleriHughes@gwynedd.gov.uk) os ydynt am gael arweiniad neu gyngor personol.

Cofrestru a staffio'r Uned breswyl/egwyl fer

Mae Uned Plant a Chefnogi Teuluoedd Cyngor Gwynedd wedi cynnal nifer o gyfarfodydd i gytuno sut fydd yr Uned breswyl/egwyl fer yn gweithredu ac yn barod i gychwyn ar y broses o gofrestru'r Uned gyda Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymru a phenodi rheolwr a swyddogion i'w rhedeg. Mi fydd y gwaith yma yn cychwyn yn fuan yn y flwyddyn newydd.

Gair gan Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd

"Rwyf wrth fy modd yn gweld y cynnydd ar waith adeiladu'r ysgol newydd wych hon ym Mhenrhyndeudraeth. Fel Cyngor, rydym wedi ymrwmo i godi safonau a sicrhau fod gan holl ddisgyblion y sir fynediad at y cyfleusterau addysgol gorau fel y gallent gyrraedd eu llawn botensial.

"Mae ein cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd sbon hon yn cynnwys y cyfleusterau diweddaraf a fydd yn gwella bywydau'r plant sy'n mynychu yn ogystal a'u teuluoedd. Mae'r staff yn Ysgol Hafod Lon ac Uned Tŷ Aran yn darparu addysg ragorol, a mi fydd cael dysgu mewn ysgol addas i bwrpas yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn fwy byth.

"Rydym felly yn edrych ymlaen i weld canlyniad y buddsoddiad sylweddol yma yn ardal Meirionnydd a Dwyfor ac i allu dathlu Nadolig 2016 yn yr ysgol newydd ym Mhenrhyndeudraeth"

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda ichi gyd



Am fwy o wybodaeth gallwch gysylltu a'r tîm prosiect

Drwy e-bost: Ysgolarbennigmeiriondwyfor@gwynedd.gov.uk

neu ffôn: 01286 679648

Mae'r prosiect hwn wedi ei gyd-ariannu gan Lywodraeth Cymru trwy ei Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools

